**ELL 13- 01(mins)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 11 Gorffennaf 2001

**Amser:** 2.00 pm

**LLeoliad:** Ystafelloedd Pwyllgor 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol.

**Presenoldeb:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Eleanor Burnham | Democratiaid Rhyddfrydol | Gogledd Cymru |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Marie Knox | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol |
| Elizabeth Taylor | Pennaeth, Yr Is-Adran Rheoli Ysgolion |
| Derek Adams | Pennaeth, Yr Is-Adran Addysg Uwch |
| Ann MacGregor | Yr Is-Adran Rheoli Ysgolion |
| Judith Cole | Yr Is-Adran Addysg Uwch |
| Tony Widdrington | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

**Ymddiheuriadau**

Dim

**Dirprwyadau**

Dim

**Datganiadau o Fuddiant**

Cynog Dafis Athro Cofrestredig

Jane Davidson Athrawes Gofrestredig

Huw Lewis Athro Cofrestredig

Lorraine Barrett Llywodraethwr Ysgol

Pauline Jarman Aelod o Lys y Llywodraethwyr, Prifysgol Caerdydd ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Gareth Jones Athro Cofrestredig; ac Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Alun Pugh Mae gwraig Alun Pugh yn ddarlithydd coleg AB

**Sesiwn Preifat**

**Eitem Un: Adolygiad Polisi – Adolygiad Addysg Uwch – Cam Gwerthuso III**

1.1 Bu i'r Pwyllgor ymgymryd â Cham Gwerthuso III o'r Adolygiad Addysg Uwch mewn sesiwn preifat.

**Sesiwn Cyhoeddus**

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

- Ystyriwyd yn fyr gan y Pwyllgor y cylch gorchwyl drafft ar gyfer adolygu agweddau addysgol yr Adolygiad o'r Iaith Gymraeg, a fyddai'n cydategu adolygiad y Pwyllgor Diwylliant. Teimlai Aelodau'r Pwyllgor fod angen ffocws cliriach yn y cylch gorchwyl ar themâu addysg a dylai osgoi dyblygu gweithgareddau'r Pwyllgor Diwylliant. Cytunwyd bod y Clerc yn diwygio'r drafft ac yn ei ddosbarthu er mwyn cael sylwadau cyn 16 Gorffennaf 2001.

**Eitem Dau: Adroddiad y Gweinidog**

**Papurau: ELL 13-01(p.1) Adroddiad y Gweinidog**

**ELL 13-01(p.2) Cyllidebau Refeniw a bennwyd gan Awdurdodau Lleol 2001-2002**

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad misol i'r Pwyllgor. Cynhwysai'r adroddiad hefyd faterion a oedd wedi cael eu codi gan yr Aelodau gyda'r Gweinidog. Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad yn fyr, ac yn dilyn, cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau.

2.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Dywedodd y Gweinidog ei bod yn falch o allu paratoi papur ar 'Gyllidebau Refeniw a bennwyd gan Awdurdodau Lleol 2001-2002' [ELL 13-01(p.2)]. Dywedodd y Gweinidog fod y ffigyrau'n amlygu'r bartneriaeth rhwng llywodraeth leol a'r Cynulliad a chafwyd ymatebion cadarnhaol hefyd ledled Cymru i'r arian ychwanegol ar gyfer ysgolion.
- Yr oedd Aelod am wybod hefyd pryd y byddai dadl ar yr adroddiad yn cael ei chynnal mewn Cyfarfod Llawn a phryd y byddai canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu cyhoeddi. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai Estelle Morris, yr Ysgrifennydd dros Addysg a Sgiliau, a'r Gweinidog hithau, yn rhyddhau adroddiad ar ddiwrnod cyfarfod y Pwyllgor hwn ac y byddai copi yn cael ei roi yn llyfrgell y Cynulliad. Mynegodd rhai Aelodau eu pryderon ynghylch pwysau asesu ar ddisgyblion. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod yr adolygiad yn uniongyrchol berthnasol a phwysleisiodd na fyddai egwyddorion y diwygiadau'n cael eu rhoi o'r neilltu.
- Mynegodd un Aelod ei bryder ynghylch perthynas weithio'r Gweinidog gydag Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (UCA). Datganodd y Gweinidog i'r berthynas rhyngddi ac undebau llafur a chymdeithasau'r athrawon fod yn un adeiladol a phriodol erioed. Crybwyllodd y Gweinidog ei bod wedi sefydlu cyfarfodydd chwarterol gydag undebau unigol ac yn cyfarfod ag undebau fel gr•p ddwywaith y flwyddyn.
- Codwyd y mater o gyfraddau dirprwyo ar gyfer Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau). Dywedodd un Aelod fod y gyfradd dirprwyo ar gyfer cyllidebau ysgolion 2001-2002 wedi aros ar 81 y cant fel ag yn y flwyddyn flaenorol. Ond yn Lloegr roedd y gyfradd dirprwyo yn 87 y cant ac yn symud tuag at 90 y cant. Gofynnwyd i'r Gweinidog a allai sicrhau y byddai'r gyfradd dirprwyo yng Nghymru yn cael ei gynyddu, o ystyried bod y gwariant yn Lloegr wedi gostwng £4 y disgybl. Cyfeiriodd y Gweinidog at gyfarfod y Pwyllgor ar 9 Mai 2001 (ELL 8-01) lle cafwyd cyflwyniad gan Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol ar Ddadansoddiad o Gyllid Ysgolion yng Nghymru 2000-2001 a chymhariaeth gyda Lloegr.

Dangosasai'r cyflwyniad fod y cyfraddau dirprwyo yng Nghymru yn amrywio rhwng 74 ac 84 y cant a bod ffordd y gwahanol AALlau o wario'u harian yn amrywio, am resymau penodol. Mynegodd y Gweinidog nad oedd angen i AALl ailystyried eu fformwlâu i sicrhau eu bod yn hollol gyfredol. Byddai'n annog yr AALlau hynny a oedd â gwariant cymharol isel ar bob disgybl i gynyddu'r gwariant.

- Mynegwyd pryder gan Aelod bod £100m wedi cael ei ddynodi ar gyfer y gyllideb ddirprwyedig i ysgolion y llynedd a £70m yn unig eleni. Atebodd y Gweinidog gan ddweud nad oedd hon yn gymhariaeth debyg-gyda-thebyg, gan fod trefniadau newydd wedi'u cyflwyno yn ystod y flwyddyn honno mewn perthynas â chyfrifoldebau'r ysgol dros brydau ysgol a iechyd a diogelwch am y tro cyntaf – gyda chyllid yn cael ei ddarparu unwaith yn unig at y diben hwnnw.
- Mynegwyd pryder gan Aelod bod rhai ysgolion yng Ngororau Cymru yn teimlo nad yw'r cyllid a dderbyniant gan eu AALlau yn cynnig darpariaeth ddigonol ar gyfer disgyblion difreintiedig. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud mai mater i'r AALlau oedd y fformwlâu a derbyniai nad yw rhai awdurdodau lleol o bosib wedi adolygu'u fformwlâu ers cryn amser. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r Cynulliad yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon.
- Holodd un Aelod ynghylch faint o arian sydd ar gael at ddiben bidio ar gyfer Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH). Mynegwyd pryder y byddai'r fformwlâu diwygiedig ar gyfer ariannu GCAH yn cael eu cyhoeddi yn ystod gwyliau'r Cynulliad. Dywedodd y Gweinidog mai'r cyfanswm crynswth ar gyfer rhaglen GCAH oedd £58m. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n hysbysu'r Aelodau parthed dosbarthiad GCAH gynted ag y byddai'r ffigyrau'n hysbys.
- Mynegwyd pryderon ynghylch diffygion ym maes therapi lleferydd a bod y cyfrifoldeb amdano yn cael ei rannu rhwng yr AALlau a'r awdurdodau iechyd lleol. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn rhannu pryderon yr Aelodau ynghylch y ddarpariaeth therapi lleferydd. Roedd y Gweinidog dros Iechyd, Jane Hutt, a hithau, wedi bod yn gweithio ar y mater. Roedd yr awdurdodau lleol ac Estyn yn ymwneud â'r mater hefyd. Roedd hi'n bwysig asesu'r gofyniad ac ystyried y ddarpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Gofynnodd rhai o'r Aelodau i'r Gweinidog ystyried faint o asesu fyddai ynghlwm wrth y Fagloriaeth Gymreig yng ngoleuni sylwadau diweddar am y diwygiadau 'Ennill Cymhwyster i Lwyddo'. Dywedodd y Gweinidog fod y Fagloriaeth Gymreig yn gynnig cyffrous ar gyfer ysgolion ac y byddai pob un o wersi 'Ennill Cymhwyster i Lwyddo' yn cael eu dysgu. Byddai'r cynllun peilot yn dechrau yn 2003.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at Adran 9 adroddiad ysgrifenedig y Gweinidog a gofynnodd a fyddai'r astudiaeth ar ofal adfywio ar gyfer plant mewn lleoliadau Anghenion Addysgol Arbennig yn berthnasol i digwyddiadau ym 1997 ac 1998 yn Ysgol Crug Glas, Abertawe. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi gwneud datganiad i'r wasg ar y mater hwn a bod copi o'r datganiad wedi'i gynnwys fel atodiad i'w hadroddiad ysgrifenedig. Roedd y cylch gorchwyl yn gyhoeddus. Dywedodd y Gweinidog fod pawb a oedd eisiau cyfrannu wedi cael eu hannog i gysylltu'n uniongyrchol â thîm yr astudiaeth.
- Gofynnodd un Aelod a fyddai'r Gweinidog yn ymddiheuro am y problemau a gafwyd wrth gyflwyno'r lefel AS newydd. Dywedodd y Gweinidog fod yr egwyddor sy'n sail i'r cymhwyster hwn wedi derbyn cefnogaeth gref. Yr oedd anawsterau yn rhwym o ddigwydd wrth geisio cydbwyso problemau ymarferol gweithredu'r system newydd gyda'r awydd cryf i sicrhau newidiadau pwysig a fyddai er budd dysgwyr.

**Eitem Tri: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Adroddiad ar gyfer y Gr•p Ymchwilio ar Galedi ac Ariannu Myfyrwyr yng Nghymru**

3.1 Yr oedd yr Athro Teresa Rees, Cadeirydd y Gr•p Ymchwilio annibynnol ar Galedi Myfyrwyr, wedi cyflwyno Adroddiad y Gr•p i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 14 Mehefin 2001. Yn awr ymddangosodd yr Athro Rees a thri aelod arall o'r Gr•p, Ken Richards, Rob Humphreys a Sonia Reynolds,

o flaen y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes er mwyn i'r Aelodau ofyn cwestiynau a thrafod materion a godwyd gan yr adroddiad. Defnyddiodd yr Athro Rees gyflwyniad sleidiau a gellir gweld copi ohono yn Atodiad A.

2. Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Gofynnodd yr Aelodau i'r cyflwynyddion am eu barn ynghylch a ddylai'r Cyfraniad Gwaddoliad Graddedigion fod yn swm cyfyngedig neu'n gyfraniad agored. Dywedodd Rob Humphreys y dylai fod yn swm cyfyngedig, gan, yn gyffredinol, teimlid y dylai'r rhai sy'n manteisio ar y system AU dalu rhywfaint tuag at eu hyfforddiant. Nododd hefyd mai rhywun arall fel arfer (h.y. teulu'r dysgwr) sy'n talu'r ffioedd. Byddai system lle telir 'ar y diwedd' yn golygu fod y buddiolwr yn ad-dalu arian a fenthycwyd ar sail ei incwm. Byddai rhaid hefyd ystyried amrywiadau yn y farchnad waith, er enghraifft, mae merched ar gyfartaledd yn ennill llai na dynion. Ond dan y system bresennol mae dynion a merched yn talu'r benthyciadau yn ôl ar yr un lefelau.
- Mynegwyd pryder hefyd parthed yr effaith yn yr Alban ar ddileu'r ffioedd hyfforddi pen-blaen a delir gan fyfyrwyr. Teimlai'r aelodau fod y system yn mynd am yn ôl, gyda myfyrwyr yn talu mwy. Mynegwyd pryder y gallai'r cyfnod trosiannol rhwng newid ffioedd hyfforddiant 'pen-blaen' am daliadau 'ar y diwedd' olygu bod Sefydliadau Addysg Uwch yn colli miliynau o bunnoedd mewn incwm dros gyfnod o dair blynedd neu fwy. Dywedodd Ken Richards y byddai'n amhosibl dileu ffioedd yng Nghymru'n unig, a byddai'n rhaid cytuno ar hyn a'i weithredu ar draws y DU i gyd. Eglurodd Rob Humphreys fod cynnig y Gr•p yn debyg i un o argymhellion Adroddiad Cubie yn yr Alban. Fodd bynnag, nid oedd Y Weithrediaeth yn yr Alban wedi mabwysiadu'r argymhelliad hwn. Dywedodd Ken Richards y gallai fod cyfle i roi mwy arian i brifysgolion petai arbedion yn cael eu gwneud ar fenthyciadau.
- Yr oedd yr Aelodau yn awyddus i wybod faint o arian fyddai'n debygol o gael ei ad-dalu fel rhan o'r system talu 'ar y diwedd'. Gofynnwyd ganddynt a fyddai'r swm gryn dipyn yn uwch na'r swm y mae rhaid i lawer o rieni ei dalu ar hyn o bryd er mwyn cadw'u plant yn y brifysgol. Dywedodd Ken Richards y byddai'r ddau swm yn ddigon tebyg.
- Roedd yr Aelodau hefyd awyddus i wybod pa effaith y byddai'r Bwrseriaethau Cynhaliaeth Myfyrwyr seiliedig ar brawf modd llym arfaethedig yn ei chael ar fyfyrwyr. Roedd yr Aelodau yn bryderus ynghylch pa fyfyrwyr allai gael cam yn sgil y system arfaethedig hon. Dywedodd Ken Richards fod cyfraniadau teuluoedd incwm uchel tuag at AU wedi gostwng oherwydd bod mwy yn gallu cael mynediad at fenthyciadau myfyrwyr. Dywedodd mai'r myfyrwyr o deuluoedd incwm uchel fyddai ar eu hennill leiaf, yn fwy na thebyg, petai holl argymhellion yr adroddiad yn cael eu rhoi ar waith, gan y byddai'n anos iddynt gael gafael ar fenthyciadau myfyrwyr.
- O ganlyniad, holodd yr Aelodau beth fyddai'r Gr•p yn ei ystyried yn incwm uchel. Pa mor ddymunol bynnag fyddai cyfraniad gan rieni, teimlid nad yw hynny bob amser yn bosibl. Dywedodd Ken Richards mai'r trothwy ar gyfer ffioedd hyfforddi fyddai £20,000 incwm gweddillol net a £15,000 ac is ar gyfer y bwrseriaethau. Cyfeirodd yr Athro Teresa Rees at astudiaeth gan Ms Claire Callender ym Mhrifysgol y South Bank, a oedd wedi gallu mesur faint yn llai oedd rhieni ar incymau uwch yn ei gyfrannu'n gyffredinol at gost AU. Yr effaith net oedd mai'r myfyrwyr o gefndiroedd incwm is oedd fwyaf tebygol o gael eu cosbi. Teimlai'r Aelodau y gallai hon fod yn rhagdybiaeth beryglus. Dadleuai'r Athro Rees fod astudiaeth Claire Callender wedi dangos fod mwy o arian i'w wario gan fyfyrwyr israddedig o gefndiroedd incwm uchel. Dywedodd Rob Humphreys nad bwriad argymhellion y gr•p oedd i unrhyw unigolyn golli allan ond i helpu'r rhai yr oedd angen cefnogaeth ariannol arnynt. Credai Rob Humphreys nad oedd y system bresennol yn cwrdd â'r targedau hyn.
- Croesawyd yr Adroddiad gan y Pwyllgor, ac yn arbennig y cynnydd yn yr adnoddau ariannol ar gyfer cefnogi myfyrwyr o £11.5m i £20m a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Gofynnwyd i'r Athro Rees a ddylid rhoi blaenoriaeth i rai o'r argymhellion dros eraill. Dywedodd

yr Athro Rees fod y gr•p yn ystyried yr argymhellion yn becyn, gan fod rhai ohonynt yn uniongyrchol gysylltiedig â rhai eraill. Nododd hefyd faint o'r argymhellion a oedd yn cynnwys themâu tebyg – megis gofal plant, cludiant a budd-daliadau.

- Teimlai'r Aelodau y gallasai'r ffigyrau incwm gweddillol ar gyfer y Bwrseriaethau Cynhaliaeth Myfyrwyr fod rhwng £15,000 ac £20,000. Ymatebodd Ken Richards trwy ddweud bod gwybodaeth ychwanegol ar y mater hwn ar gael ar fersiwn CD-Rom yr Adroddiad. Ychwanegodd y teimlai nad oedd y ffigyrau incwm gweddillol yn adlewyrchu gallu rhieni i dalu am addysg eu plant. Argymhellodd y dylid annog llywodraeth y DU i ailwerthuso'r ffordd o fesur gallu rhieni i dalu yn y dyfodol.
- Cytunai'r Aelodau y byddai myfyrwyr o gefndiroedd incwm uchel, o dan argymhellion y Gr•p, yn fwy abl i gynllunio ar gyfer ffioedd hyfforddi. Cytunwyd hefyd gyda'r argymhelliad o brofion modd llymach. Teimlai'r Aelodau fod angen mynd i'r afael â'r elfennau biwrocrataidd. Nododd Ken Richards fod angen sefydlu asiantaeth unigol ar gyfer profi modd ac argymhelliad y Gr•p oedd mai'r AALlau a ddylai gyflawni'r swyddogaeth honno. Nododd sut y gellid gweithredu benthyciad myfyriwr trwy brawf modd lle byddai 25% o'r benthyciad yn ddibynnol ar incwm rhieni. Wrth i incwm rhieni godi, teimlai y dylid cyfyngu mwy ar yr hawl i gael benthyciad. Dywedodd Dr Sonia Reynolds nad oedd gan y Gr•p wrthwynebiad i fenthyciadau ar gyfraddau masnachol i'r myfyrwyr hynny na allai gael gafael ar ragor o fenthyciadau myfyrwyr.
- Yr oedd yr Aelodau am wybod a oedd y Gr•p wedi edrych ar gefnogaeth ariannol ychwanegol i ardaloedd cymdeithasol difreintiedig. Teimlid bod rhai ardaloedd wedi bod yn ariannu ardaloedd eraill i fynd i brifysgol tra bo'u cymunedau hwy ar eu colled. Crybwyllwyd y syniad o 'gefnogaeth cod post' a gofynnwyd a oedd y Gr•p wedi ystyried arian ychwanegol i ardaloedd o dan anfantais gymdeithasol. Eglurodd yr Athro Teresa Rees fod y Gr•p wedi ystyried y mater hwn yn fanwl. Nododd sut y datblygwyd y syniad o'r Bwrseriaethau Cynhaliaeth Myfyrwyr fel eu bod yn gymwys i'r sector AB yn ogystal â'r sector AU. Dywedodd Dr Sonia Reynolds fod angen darbwyllo mwy o bobl ifanc i ystyried AB ac AU fel a nodir yn argymhelliad 11.9 yr Adroddiad. Dywedodd hefyd nad cymorth ariannol oedd yr unig ystyriaeth bwysig, ond hefyd mentora a chefnogaeth ysgogol. Cyfeiriodd Dr Reynolds at yr enghraifft ym Mhrifysgol Aberystwyth, lle mae ysgolion haf wedi cael eu sefydlu ar gyfer myfyrwyr dan anfantais. Argymhellodd Dr Reynolds y dylid targedu mwy o arian ar gyfer sefydliadau a oedd yn denu pobl o gefndiroedd dan anfantais.
- Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu sicrhau barn yr asiantaethau a fydd yn gysylltiedig â gweithredu'r cynlluniau. Dywedodd y byddai'r holl argymhellion yn cael eu hystyried yn ofalus. Byddai cyfarfod gyda Margaret Hodge – Gweinidog y DU dros Ddysgu Gydol Oes ac Addysg Uwch – ac Alistair Darling – Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Waith a Phensiynau – yn cael ei drefnu i drafod argymhellion Adroddiad y Gr•p. Wedyn gallai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio mewn modd cadarnhaol ar yr argymhellion sydd o fewn gallu'r Cynulliad i'w gweithredu.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Gweinidog, dywedodd yr Athro Rees na fyddai cyflwyno'r Bwrseriaethau yn arwain at golli adnoddau enfawr o Gymru. Dywedodd fod tystiolaeth ar gael a ddangosai fod myfyrwyr o ardaloedd dan anfantais yn llai tebygol o deithio i sefydliadau eraill ac yn fwy tebygol o astudio yn eu sefydliadau lleol; hefyd, roedd myfyrwyr a ddeuai o du allan i Gymru yn llai tebygol o geisio cael mynediad at y Gronfa Galedi. Eglurodd Rob Humphreys hefyd fod y math hwn o safbwynt yn cael effaith groes. Trwy gyfyngu ar y gefnogaeth y byddai myfyrwyr incwm isel sy'n aros yng Nghymru yn ei chael o'r gronfa galedi, byddai llai o ddewis i fyfyrwyr incwm isel, tra bo myfyrwyr incwm uchel yn cael y dewis gorau.
- Nododd yr Athro Rees mai un o fwriadau 'Cymunedau yn Gyntaf' oedd targedu cefnogaeth i ardaloedd dan anfantais gymdeithasol, a bod hynny'n digwydd yn barod gydag AB. Dywedodd y gallai'r dull o gyfeirio arian trwy god post neu ardal greu anawsterau, ac achosion anodd iawn o bosibl. Fodd bynnag, dywedodd hefyd nad oedd darparu symiau mawr o arian yn ddigonol ar ei ben ei hun, ac y byddai angen darparu mentora a chynlluniau eraill er mwyn cynyddu niferoedd y myfyrwyr o'r ardaloedd hynny. Byddai angen cydbwysedd rhwng mwy o arian a mesurau cefnogol.

Ychwanegodd Dr Reynolds y byddai'n fanteisiol peidio â thargedu Bwrseriaethau Cynhaliaeth Myfyrwyr ar sail ffiniau ardaloedd yn unig.

- Holodd yr Aelodau ynghylch swyddogaeth yr AALlau parthed cynnal profion modd ar gyfer y Bwrseriaethau. Mynegwyd pryder bod system o'r fath yn gallu arwain at fwy o fiwrocratiaeth i'r AALlau. Dywedodd Ken Richards fod gan yr AALlau gyfarwyddyd ysgrifenedig ar gyfer asesu cyfraniad rhieni. Ychwanegodd fod argymhellion y Gr•p yn lleihau'r manylion y byddai angen eu darparu ac yn sicrhau proses â mwy o ffocws. Gwrthodai Ken Richards y syniad o rieni yn gorfod datgan difidendau dan system arfaethedig y Gr•p. Cyfeiriodd at argymhelliad 24 yn yr Adroddiad a nododd fod yr argymhellion yn cyd-fynd â'r strwythurau newydd gogyfer â dysgu gydol oes.
- Yr oedd yr Aelodau hefyd yn awyddus i wybod a oedd unrhyw ffigyrau ar gael ynghylch niferoedd y myfyrwyr sy'n rhoi'r ffidil yn y to gyda'u cyrsiau. Mynegwyd pryder ynghylch 'tlodi'r profiad dysgu'; lle mae myfyrwyr yn dechrau ar gwrs ond wedyn yn gweld na allant ariannu'u haddysg. Dywedodd yr Athro Rees nad oedd ganddi unrhyw ffigyrau penodol ar y mater hwn a bod mwy o ffigyrau ar gael yn haws ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud cais am estyn y cyfnod astudio. Petai pum argymhelliad olaf yr Adroddiad yn cael eu cyflwyno, dywedodd y byddai'n haws ateb cwestiwn o'r fath yn y dyfodol. Ychwanegodd Rob Humphreys mai un o brif ganfyddiadau'r adroddiad oedd fod llawer o fyfyrwyr mewn AB ac AU yn gweithio yn ystod eu cwrs gradd er mwyn cael arian i dalu rhent a phrynu bwyd, a bod hyn weithiau yn gallu gwanhau eu perfformiad.
- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n bosibl cymharu lefelau dyled presennol myfyrwyr gyda'r rhai a fyddai'n bodoli petai'r argymhellion caledi myfyrwyr yn cael eu rhoi ar waith. Dywedodd yr Athro Rees fod tystiolaeth yn awgrymu y byddai gwahaniaeth o £1,200 y flwyddyn mewn AU a £947 mewn AB. Roedd y ffigyrau hyn wedi helpu'r Gr•p wrth iddynt drafod y Bwrseriaethau. Awgryma Adroddiad Claire Callender y gallai myfyriwr sy'n dechrau cwrs tair blynedd, sy'n derbyn benthyciadau myfyrwyr a dyled o £500 ar ei gerdyn credyd, fod â dyled o £12,000 - £14,000 erbyn diwedd ei gwrs. Ychwanegodd Ken Richards y byddai'r myfyriwr, a bwrw bod incwm rhieni o dan £10,000, yn cael £1,500 yn fwy o grant; yng ngoleuni argymhellion y Gr•p byddai dyled y myfyriwr £5,000 - £6,000 yn llai nag o dan y system bresennol.
- Gofynnodd yr Aelodau i'r Cyflwynyddion sut y gallent gefnogi'r Gweinidog er mwyn sicrhau'r dyddiad gweithredu cynharaf posibl i'r Bwrseriaethau. Pwysleisiodd Rob Humphreys fod y Bwrseriaethau yn fater creiddiol, a dywedodd yr Athro Rees nad oedd y penderfyniad gan y Gr•p i argymell cynyddu'r adnoddau wedi bod yn un hawdd. Yr oedd y Gr•p o'r farn fod y system bresennol wedi golygu cryn wastraff ar adnoddau; pwysleisiai'r adroddiad bod angen targedu adnoddau. Dywedodd yr Athro Rees fod y Gr•p yn teimlo y byddai'u hargymhellion yn arwain at system fwy cost-effeithiol ac yn helpu'r Cynulliad i gyflawni amcanion 'Gwell Cymru'.
- Gofynnodd rhai Aelodau a fyddai cyflwyno'r Bwrseriaethau yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o leihau problem caledi myfyrwyr. Cytunodd y cyflwynyddion y byddai'n gwneud hynny.

**Eitem Pedwar: Ystyried Blaenoriaethau'r Gyllideb Ymhellach**

4.1 Parhaodd y Pwyllgor â'r drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod blaenorol (ELL 12-01) a dywedodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar bennu'i flaenoriaethau. Byddai hyn yn ei alluogi i hysbysu'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes o'r blaenoriaethau hyn erbyn 20 Gorffennaf 2001. Awgrymodd y Cadeirydd yr hoffai'r Pwyllgor o bosib gofio ei fod wedi cynhyrchu tri adroddiad ar faterion pwysig yn ystod y flwyddyn bresennol; Blynyddoedd Cynnar, Darparu Llefydd mewn Ysgolion a TGCh mewn Addysg.

Hefyd, byddai'n cynhyrchu adroddiad ar yr Adolygiad o AB yn ystod yr Hydref 2001. Gwahoddwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd i ystyried gostwng neu gynyddu gwariant mewn meysydd penodol.

4.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Dywedodd un aelod fod cyflogau darlithwyr AB, ynghyd â'u telerau a'u hamodau, yn faterion y dylid eu hystyried.
- Ystyriai'r Aelodau fod yr adroddiad Blynyddoedd Cynnar (cyn-ysgol) yn flaenoriaeth gan y dylai plant gael y dechreuad gorau posibl mewn addysg er mwyn eu galluogi i symud ymlaen i AB ac/neu AU yn y dyfodol petaent yn dymuno gwneud hynny. Hefyd, teimlai'r Aelodau fod ysgolion bychain a gwledig yn faterion pwysig.
- Teimlid bod adroddiad y Pwyllgor ar TGCh wedi codi disgwyliadau, felly byddai angen sicrhau adnoddau digonol er mwyn gweithredu argymhellion yr adroddiad. Holodd yr Aelodau a fyddai goblygiadau adnoddau mawr ynghlwm wrth fynd i'r afael â'r mater o leihau'r beichiau biwrocrataidd ar athrawon.
- Dywedodd yr Aelodau yr hoffent weld y mater o Galedi Myfyrwyr yn cael ei gydnabod a'i ariannu ac awgrymwyd y dylai cyflawni argymhellion y Gr•p Caledi Myfyrwyr fod yn flaenoriaeth.
- Teimlai'r Aelodau fod rhoi mwy o gefnogaeth i hyfforddiant/datblygiad therapyddion AAA yn fater pwysig ac y dylid cyfeirio at y mater hwn yn y llythyr at y Gweinidog. Nododd yr Aelodau fod y Gwasanaeth Iechyd wedi cael trafferthion recriwtio a chadw therapyddion arbenigol. Awgrymodd rhai Aelodau y gallai'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ystyried ar y cyd unrhyw faterion sydd ynghlwm wrth recriwtio a chadw staff o'r fath yng Nghymru.
- Teimlai Aelodau y dylid ystyried mater datblygiad proffesiynol athrawon a dywedodd un Aelod y gellid cynyddu cyllideb GCAH o bosib at y diben hwn.
- Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor ystyried dau fater; yn gyntaf, yr angen i ddiogelu'r cwantwm addysg a hyfforddiant, ac yn ail, y dylai'r Pwyllgor – parthed materion Caledi Myfyrwyr – bwysleisio na ddylid ailddyrannu'r arian o'r gyllideb addysg a hyfforddiant bresennol. Gofynnai'r Gr•p Annibynnol ar Galedi Myfyrwyr ar i'w hargymhellion gael eu hariannu gydag adnoddau sydd yn ychwanegol at yr adnoddau sydd wedi'u pennu'n barod ar gyfer addysg a hyfforddiant. Cadarnhawyd hyn gan y Pwyllgor.
- Teimlai'r Cadeirydd y dylai'r llythyr at y Gweinidog bwysleisio fod y sector AB yng Nghymru yn wynebu pwysau cystadleuol mawr o fewn y DU ac yn rhyngwladol.
- Dywedodd un Aelod y dylid ystyried mentrau megis 'Cefnogaeth Gartref' a 'Cychwyn Cadarn' er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu cyfeirio'n briodol.
- Cyfeiriodd yr Aelodau at y fenter 'Llwybrau Diogel i'r Ysgol' sy'n mynd i'r afael â'r broblem o ordewdra mewn plant drwy eu hannog i ddilyn llwybrau diogel, iach (h.y. cerdded, seiclo) i'r ysgol. Mynegwyd cefnogaeth yr Aelodau i'r fenter, a ariannwyd o gyllideb y Gweinidog dros yr Amgylchedd.

4.3 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc baratoi llythyr drafft yn nodi blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer Cylch Cynllunio'r Gyllideb i'w ystyried gan yr Aelodau. Byddai'r Cadeirydd wedyn yn anfon y llythyr at y Gweinidog erbyn 20 Gorffennaf.

**Etiem Pump: Cofnodion y Cyfarfod ar 27 Mehefin 2001**

***Papur: ELL 12-01(min)***

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf gan y Pwyllgor.

**Cyfarwyddiaeth y Pwyllgor Gorffennaf 2001**

**ATODIAD A**

**Gr•p Ymchwilio Annibynnol i Galedi ac Ariannu Myfyrwyr yng Nghymru**

**Ein canfyddiadau 1**

**Cronfeydd Mynediad a Chaledi:**

- gwerir y rhan fwyaf ar ofal plant a chludiant

- targedu annigonol

- cymhleth a dryslyd

- yn feichus yn weinyddol

**Ein hargymhellion:**

**Y Deyrnas Unedig**

- mwy o fuddsoddiad
- hawl i gymorth cynhaliaeth ar gyfer AB ac AU
- cyflwyno Cyfraniadau Gwaddoliad Graddedigion yn lle ffioedd hyfforddi
- profion modd llymach ar gyfer benthyciadau
- rhesymoli'r rhyngwyneb rhwng budd-daliadau a chymorth i ddysgwyr

**Ein Hargymhellion:**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

- cynyddu'r gyllideb ar gyfer cynorthwyo dysgwyr

- strategaethau gofal plant a chludiant

- cyfuno pob Cronfa yn ddau gynllun newydd:

Bwrseriaethau Cynhaliaeth Myfyrwyr

Cronfeydd Ariannol wrth gefn

**Buddsoddi mewn Dysgwyr:**

**Cydlyniad, eglurder a chydraddoldeb**